



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Targeddu cyfleoedd pwrpasol at fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

Canfod y myfyrwyr sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn teilwra a thargeddu cyfleoedd

Dyddiad: Tachwedd 2018

Datblygodd Coleg Cambria ddull o dargeddu gwybodaeth, adnoddau a chyfleoedd pwrpasol at fyfyrwyr sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn annog dilyniant ieithyddol o fewn addysgol ôl 16 a chynyddu niferoedd y myfyrwyr sydd yn ymwneud â'r Coleg drwy gyfrwng y Gymraeg. .

CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Yn flaenorol, byddai myfyrwyr Coleg Cambria yn hunanasesu eu sgiliau iaith fel rhan o'r broses gofrestru gychwynnol sydd yn digwydd yn y Coleg ar ddechrau tymor academaidd newydd ym mis Medi. Canfuwyd bod y myfyrwyr yn aml iawn, yn amharod i gydnabod eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn aml iawn, byddai staff yn canfod bod myfyrwyr mewn gwahanol rannau o'r coleg yn gwbl rhugl ond nad oedd hynny wedi ei adnabod yn ystod y broses gofrestru, ac felly nad oedd cofnod ohono ar y system Rheoli Gwybodaeth (EBS) y Coleg. Roedd yn glir felly nad oedd gan y coleg ddarlun clir a chyflawn o broffil ieithyddol y myfyrwyr a phwy mewn gwirionedd oedd y myfyrwyr Cymraeg.

DYLETSWYDDAU STATUDOL

Mae safon 85 yn Hysbysiad Cydymffurfio Coleg Cambria yn nodi:

Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Er nad oedd y coleg yn ddarostyngedig i'r safonau pan ddatblygwyd y broses (daeth safonau'r coleg yn weithredol ar 1 Ebrill 2018), roedd gwella'r trefniadau ar gyfer adnabod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn fodd o hwyluso sut yr oedd y coleg yn hybu a hysbysebu ei wasanaethau Cymraeg.

Y CAMAU A GYMERWYD

Y cam cyntaf oedd cydweithio'n agos â'r Adran Ddata'r Coleg er mwyn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol gan y coleg cyn i'r myfyrwyr ddechrau ym mis Medi. Roedd y wybodaeth n cynnwys:

- Eu cymhwyster uchaf yn y Gymraeg
- Ym mha iaith y cawsant eu haddysg uwchradd
- Ym mha iaith yr hoffent gael eu haddysgu
- Ym mha iaith yr hoffent dderbyn cyfathrebiadau gan y coleg

Cesglir y wybodaeth drwy ffurflenni cofrestru a chyfweliadau unigol gyda myfyrwyr wrth iddynt wneud cais am gwrs. Roedd hyn yn galluogi Adran y Gymraeg i gysylltu'n uniongyrchol â phob un o'r myfyrwyr a oedd wedi eu hadnabod fel rhai oedd wedi dilyn eu haddysg cyn 16 trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog drwy e-bost i roi gwybod am y cymorth Cymraeg a oedd ar gael iddynt; gweler y ddelwedd isod.



Edrychwch ar yr e-bost hwn yn eich powr

 **COLEG
CAMBRIA**

**DYSGU TRWY
GYFRWNG Y
GYMRAEG**

Wrth i ti gofrestru ar dy gwrs yn y coleg, mi wnest ti nodi dy fod yn gallu deall, siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Ysgrifennaf atat i ofyn os yr hoffet gymorth gydag unrhyw agwedd o'th gwrs. Os wyt ti wedi astudio yn flaenorol drwy gyfrwng y Gymraeg, efallai yr hoffet help efo termau technegol neu fathemategol, er enghraifft. Gelli hefyd wneud rhywfaint o dy waith yn Gymraeg.

Am wybodaeth bellach, siarada efo dy diwtor neu cysyllta â mi ar:

help.cymraeg@cambria.ac.uk

Roedd y broses o dargedu myfyrwyr yn cynnwys y camau canlynol:

- Adran Ddata y coleg yn paratoi adroddiad ar sgiliau ieithyddol myfyrwyr, fesul cwrs a safle;
- rhannu'r wybodaeth trwy systemau Rheoli Gwybodaeth y Coleg.
- cysylltu â'r myfyrwyr yn unigol i gynnig cyfleoedd a chymorth.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddi byr gyda'r Tîmoedd Cwricwlwm er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses ac yn gwybod y trefniadau oedd mewn lle i ddelio â cheisiadau am gefnogaeth Cymraeg gan fyfyrwyr.

Cytunwyd ar y broses â Grŵp Strategaeth Cwricwlwm y coleg a'r Uwch Dîm Rheoli, ac ymgynghorwyd â'r Uwch Dim Rheoli yn ogystal yn ystod y broses.

LLWYDDIANNAU'R BROSES ADNABOD A THARGEDU

Yn sgil y gwelliannau i'r broses mae'r Coleg bellach yn arbed amser drwy adnabod ymlaen llaw y myfyrwyr hynny sydd wedi astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu mewn ffrwd Gymraeg mewn ysgol ddwyieithog, a'u grwpio gyda'i gilydd ar gyfer grwpiau tiwtorial ac ar gyfer dilyn cyrsiau fel y Fagloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae system Rheoli Gwybodaeth y coleg yn hygyrch i bawb, ac yn dangos o ba ysgol y mae pob dysgwr wedi dod. Mae hyn yn fodd i'r coleg adnabod sgiliau iaith pob un o'i fyfyrwyr.

Mae'r coleg felly yn adnabod ei siaradwyr Cymraeg yn llawer gwell ac yn gynt, a gall gysylltu â nhw ynghylch unrhyw ddigwyddiadau a fyddai o ddiddordeb iddynt e.e. URDD/Menter Iaith/digwyddiadau mewnol.

Mae darlithwyr bellach yn ymwybodol o bwy yw'r siaradwyr Cymraeg yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad maent yn gofyn am derminoleg a deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dysgwyr hyn.

Gall myfyrwyr gysylltu â chyfeiriad e-bost help.cymraeg@cambria.ac.uk sydd yn gyfrif pwrpasol i gynnig help a chefnogaeth i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent felly'n cael gwybod at bwy i droi am gymorth Cymraeg, ac mae mwy o fyfyrwyr yn manteisio ar gyfleoedd dwyieithog.

ELFENNAU TROSGLWYDDADWY

Roedd llwyddiant y cynllun yn ddibynnol ar sicrhau'r elfennau canlynol ar y cychwyn:

- Cydweithio da gyda'r Adran Gwybodaeth Myfyrwyr
- Adnabod myfyrwyr cyn i'r tymor academiaidd newydd gychwyn
- Ymrwymiad staff dysgu i gefnogi pob myfyriwr unigol

Manylion cyswllt

Enw: Llinos Roberts

Sefydliad: Coleg Cambria

E-bost: Llinos.Roberts@cambria.ac.uk

BARN Y COMISIYNYDD

Mae sicrhau bod gwasanaethau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u hybu yn bwrpasol yn hanfodol i lwyddiant a'r defnydd o'r gwasanaethau hynny. Mae Coleg Cambria wedi datblygu proses lwyddiannus ar gyfer canfod pa fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, a thargedu gwybodaeth a chyfleoedd pwrpasol at y garfan honno. Mae'r broses yn cyfrannu at hybu a hysbysebu gwasanaethau Cymraeg y Coleg, a thrwy hynny'n gwella sgiliau a chynyddu hyder myfyrwyr o ran y Gymraeg, gan sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

PROSESU DATA

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig barn neu gyngor ynghylch cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae gwybodaeth fanwl am y rheoliad hwnnw ar gael ar [wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).